Y SENEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 15:00 ar 14 TACHWEDD 2018, ym MedRus Mawr, Penbryn.

Aelodau â phleidlais:	Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor (cofnod 25); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr) (Cadeirydd); Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd); Dr Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor Dros Dro (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi); Dr Gordon Allison; Dr Guy Baron; Yr Athro Paul Brewer; Dr Hazel Davey; Mr Tim Davies; Dr Gwion Evans; Dr Chris Finlayson; Ms Meg Hatfield, Swyddog Materion Academaidd UMAber; Dr Sarah Higgins; Ms Louise Jagger; Ms Anna Wyn Jones, Llywydd UMCA; Dr Louise Marshall; Mr John Morgan; Dr Ola Olusanya; Dr Maria Plotnikova (o gofnod 16); Dr Elin Royles, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Yr Athro Phillipp Schofield; Dr Victoria Wright; Mr Bruce Wight, Llywydd UMAber; a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion.
Aelodau heb bleidlais:	Yr Athro Iain Donnison; Yr Athro Andrew Evans; Mrs Nerys Fuller-Love; Yr Athro Nigel Holt; a Dr Bernard Tiddeman.
Yn gweinyddu:	Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Ms Emma Williams, Y Cofrestrydd Academaidd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Yr Athro Simon Cox; Yr Athro John Goddard; Mr Nigel Hardy; Dr Jamie Medhurst; Yr Athro Robert Meyrick; a Dr Anoush Simon.

13. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Trefniadau Cadeirio'r Cyfarfod

   Bu'n rhaid i'r Is-Ganghellor fynd i gyfarfod yng Nghaerdydd y bore hwnnw ac ni fyddai'n ôl yn Aberystwyth mewn pryd i'r cyfarfod. Felly, roedd wedi gofyn i'r Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr) i gadeirio'r cyfarfod yn ei habsenoldeb.

2. Holiaduron Cloriannu Modiwl (HCM)

   1. Cafodd yr holiaduron diweddaraf eu lansio ar 12 Tachwedd 2018. Gofynnwyd i'r aelodau annog eu cydweithwyr i amserlennu'r holiaduron ar gyfer eu modiwlau.

   2. Roedd nifer sylweddol o'r arolygon roedd angen eu trefnu'n gysylltiedig â modiwlau â nifer fach o fyfyrwyr wedi'u cofrestru arnynt. Felly, anogwyd aelodau i gysylltu â thîm 'Eich Llais ar Waith' i esbonio'r sail resymegol am barhau â'r modiwlau hyn.

14. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

15. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2018 (SEN1819-021).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir, yn amodol ar egluro bod Dr Anoush Simon yn 'aelod heb bleidlais' yn y cyfarfod (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

16. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN1819-022).

NODWYD

1. Trosglwyddo marciau o sefydliadau eraill (cofnod 70.6)

    1. Roedd yr Adran Mathemateg wedi adolygu'r data a ddarparwyd gan yr adran Cynllunio. Er bod rhai amheuon yn parhau ynglŷn â'r dull y cyflawnwyd y modelu gwreiddiol, cafodd sail resymegol y newid ei gydnabod ac roedd yr adran yn fodlon symud ymlaen fel y cytunwyd.

    2. Ni fyddai'r flwyddyn rhyng-gwrs sy'n rhan o gynlluniau gradd yr adran Ieithoedd Modern yn cael ei heffeithio gan y newidiadau hyn. Ond, cafodd ei gydnabod y byddai angen cynnal trafodaethau â'r Swyddfa Ryngwladol ynglŷn â pharhau i adolygu cytundebau dysgu gyda darparwyr dramor.

    PENDERFYNWYD

    3. Cylchredeg datganiad gan y Gofrestrfa Academaidd at yr adrannau academaidd i egluro bod y rheol ddiwygiedig bellach yn cael ei gweithredu fel y cafodd ei chyfansoddi a'i chymeradwyo'n flaenorol gan y Senedd; ac y bydd y datganiad hwn yn ganllaw ar adegau lle byddai angen datblygu fersiynau arbenigol o fodiwlau tenau dau semester (**GWEITHREDU:** Cofrestrydd Academaidd).

2. 'The Wheel' (cofnod 9.2)

    Roedd Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth gyda 'The Wheel' wedi ei lofnodi, a byddai darpariaeth y drwydded yn cael ei hysbysebu pan fyddai'r Cyngor Cyllido wedi cymeradwyo'r atodiad i Gynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol am 2019-20.

3. Y diweddariad a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

17. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1819-023).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Senedd y cafodd materion eu cymeradwyo naill ai gan aelodau trwy ohebiaeth, neu'n weithredol gan yr Is-Ganghellor, sef Cadeirydd y Senedd yn unol â darpariaethau Rheol Sefydlog.

2. Y mater a gymeradwywyd gan yr aelodau trwy ohebiaeth oedd:

    1. penodi aelodau'r Senedd ar is-bwyllgorau.

3. Y materion a gymeradwywyd trwy gamau gweithredol gan Gadeirydd y Senedd oedd:

1. polisi newydd 'Datblygu Addysgu ar gyfer Staff Newydd', ar argymhelliad y Bwrdd Academaidd ac yna'r Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb;

2. diwygiadau i Reolau Sefydlog y Senedd, ar argymhelliad y Pwyllgor Siarter fel ag yr oedd ar y pryd; a

3. newid i linell adrodd Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol, fel y bydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Senedd yn y dyfodol.

18. GOHEBIAETH

Nid oedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi derbyn gohebiaeth nad oedd eisoes wedi'i ddwyn i sylw'r aelodau.

19. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN1819-024).

NODWYD

1. Roedd dwy brif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.

2. Llongyfarchodd yr aelodau'r cydweithwyr a benodwyd yn Benaethiaid Adrannau yn ddiweddar. Roedd prosesau ar droed hefyd i benodi Penaethiaid i nifer o adrannau academaidd eraill, gan gynnwys Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig, nad oedd wedi'i chrybwyll yn yr adroddiad.

3. I'r gwrthwyneb i'r diweddariad yn yr adroddiad ynglŷn â'r Hen Goleg, nid oedd yr adolygiad canol-cyfnod gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri wedi'i gynnal. Trefnwyd i gynnal y cyfarfod hwnnw ar 22 Tachwedd 2018, a byddai'r canlyniad yn effeithio ar y ffordd y byddai'r Brifysgol yn mynd ati i baratoi cyflwyniad ar gyfer cais yr ail gyfnod.

20. DATGANIAD BLYNYDDOL O SICRWYDD ANSAWDD

DERBYNIWYD

1. Adroddiad cefndirol gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1819-025); a

2. Adroddiad gan y Gofrestrfa Academaidd (SEN1819-035).

NODWYD

3. Mae'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd i Gymru yn rhoi pwyslais ar swyddogaeth cyrff llywodraethu ar gyfer darparu sicrwydd ynglŷn â materion ansawdd a safonau. Rhaid i gyrff llywodraethu gytuno ar Ddatganiad Blynyddol o Sicrwydd Ansawdd a'i gyflwyno i'r Cyngor Cyllido ym mis Rhagfyr 2018.

4. Roedd yr adroddiad manwl a baratowyd gan y Gofrestrfa Academaidd wedi'i gynllunio i roi'r dystiolaeth briodol i'r Cyngor ar gyfer cadarnhau wrth y Cyngor Cyllido ei fod yn fodlon bod y Brifysgol wedi cyflawni'i rhwymedigaethau yng nghyswllt cyfres o ddatganiadau ynglŷn â sicrwydd ansawdd, a'i bod yn parhau i wneud hynny.

5. Hwn fyddai'r ail Ddatganiad Blynyddol o Sicrwydd Ansawdd y gwahoddwyd y Cyngor i gytuno yn ei gylch. Fel y cyfryw, roedd yr adroddiad atodol a ddrafftiwyd gan y

Gofrestrfa Academaidd yn llai manwl na fersiwn y llynedd, ac oherwydd hynny bu angen cael esboniad llawnach o brosesau'r Brifysgol ar gyfer sicrhau ansawdd.

6. Ni fu'n bosibl paratoi adroddiad y Gofrestrfa Academaidd mewn pryd i'w anfon allan cyn cyfarfod y Senedd, am fod angen aros am ganlyniadau Pwyllgorau Materion Academaidd newydd y Cyfadrannau. Gwahoddid aelodau'r Senedd felly i ystyried yr adroddiad trwy ohebiaeth.

21. CYLCHOEDD GORCHWYL Y PWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1819-026).

NODWYD

1. Ar 10 Hydref 2018, cymeradwyodd y Senedd yr ad-drefnu arfaethedig ar y pwyllgorau academaidd a drafft y cylchoedd gorchwyl diwygiedig yn gysylltiedig â hynny. Ers hynny, cafodd y cylchoedd gorchwyl eu hystyried yn fanwl gan y pwyllgorau newydd neu ddiwygiedig yn eu cyfarfodydd cyntaf o'r flwyddyn academaidd newydd. Nodwyd canlyniadau'r trafodaethau yn yr adroddiad.

2. Nododd yr aelodau'r adborth a dderbyniwyd o'r Cyfadrannau yn gysylltiedig ag aelodaeth eu Pwyllgorau Materion Academaidd newydd, gyda golwg ar gael cysondeb i'r aelodaeth.

3. Fel y cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf y Senedd, byddai'r Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr) yn cynnull grŵp yn dilyn cylch Chwefror/Mawrth 2019 o gyfarfodydd y pwyllgorau academaidd er mwyn adolygu effeithiolrwydd y pwyllgorau, a chyflwyno crynodeb o argymhellion i'r Senedd ar 27 Mawrth 2019.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r diwygiadau a gynigiwyd i gylchoedd gorchwyl y pwyllgorau (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

22. CAIS AM ENWEBIADAU AR GYFER GRADDAU ER ANRHYDEDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1819-027).

NODWYD

1. Ar 22 Hydref 2018, cyfarfu'r Grŵp Graddau er Anrhydedd i ystyried enwebiadau am Raddau er Anrhydedd Prifysgol Aberystwyth. Amlinellai'r adroddiad argymhellion y Pwyllgor ynglŷn â dyfarnu Graddau er Anrhydedd.

PENDERFYNWYD

2. Argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r enwebiadau a gynigiwyd am Raddau er Anrhydedd (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

23. RHODD ER COF AM MRS FOSTER WATSON

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1819-028).

NODWYD

1. Bob pum mlynedd dyfernir rhodd er cof am Mrs Foster Watson i aelod o staff PA am waith a gyhoeddwyd sy'n cyfuno ysgolheictod â diddordeb cyffredinol.

2. Gwahoddwyd cyflwyniadau erbyn 28 Medi 2018. Derbyniwyd chwe llyfr a chawsant ei hystyried gan banel o aseswyr nodedig: Yr Athro Jane Aaron; D Geraint Lewis; a'r Athro Ned Thomas.

PENDERFYNWYD

3. Dyfarnu Rhodd Goffa Mrs Foster Watson i Dr Martin Crampin am ei lyfr 'Stained Glass from Welsh Churches', yn unol ag argymhelliad y panel beirniaid (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

24. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad ar archwiliadau yn unol â'r polisi Ymddygiad Academaidd Annerbyniol (SEN1819-029);

2. Adroddiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC) (SEN1819-030);

3. Grantiau Ymchwil (SEN1819-031);

4. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN1819-032).

NODWYD

5. <u>Adroddiad o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol</u>

   Ar 13 Tachwedd 2018, cymeradwyodd Gweithrediaeth y Brifysgol gynnig i benodi Tiwtor i ddarparu cymorth astudio trwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr sy'n astudio trwy'r Gymraeg yn y Brifysgol.

6. Cynnwys yr adroddiadau eraill a gyflwynwyd er gwybodaeth.

25. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad yn cynnwys y canlynol (SEN1819-033):

1. Y Bwrdd Academaidd (31 Hydref 2018);

2. Y Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr (31 Hydref 2018);

3. Bwrdd y Ddarpariaeth Gydweithrediadol (30 Hydref 2018);

4. Y Bwrdd Ymchwil (18 Hydref 2018); a'r

5. Cyngor (21 Medi 2018).

NODWYD

6. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r pwyllgorau.